Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Ynysfach
# Resolfen
# Castell-nedd
# SA11 4AB

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Ynysfach wedi'i lleoli ym mhentref Resolfen yng Nghwm Nedd, chwe milltir i'r gogledd o dref Castell-nedd. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer 130 o ddisgyblion tair i 11 oed. Ar hyn o bryd, mae pedwar dosbarth oedran unigol a dau ddosbarth oedrannau cymysg. Mae chwech athro amser llawn.

Mae tua 18% o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid yw'r un disgybl yn dod o gartref lle mae'r Gymraeg yn famiaith. Mae tua 19% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sef tua'r cyfartaledd i Gymru, ac mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2008. Penodwyd y pennaeth presennol yn Ionawr 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Ynysfach yn 2013-2014 yw £3,370 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yw £8,492 a'r lleiafswm yw £2,668. Mae Ysgol Gynradd Ynysfach yn y 46ed safle o'r 70 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill y lefel berfformiad ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad a gwrando;
- mae safonau darllen yn gwella'n dda;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- mae'r rhan fwyaf o addysgu yn dda; ac
- mae presenoldeb yn gwella.

Fodd bynnag:

- nid yw medrau darllen llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n ddigon da;
- nid yw disgyblion mwy galluog yn y ddau gyfnod allweddol yn cyflawni eu potensial llawn;
- nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau sillafu ac atalnodi yn llawn;
- nid yw llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac nid ydynt yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu'n ddigon da ar draws y cwricwlwm; ac
- nid oes gan lawer o ddisgyblion hyder a medrau yn defnyddio Cymraeg llafar mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac nid ydynt yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ddigon da.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn rheoli'r ysgol yn effeithlon ac yn darparu arweinyddiaeth strategol gadarn ac ymdeimlad clir o gyfeiriad;
- mae gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol;
- mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o weithdrefnau hunanarfarnu i nodi ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu;
- mae nifer o fentrau diweddar yn dechrau dangos effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion; ac
- mae'r bartneriaeth gyda rhieni, y gymuned ac asiantaethau eraill yn gryfder yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwella medrau sillafu, atalnodi ac ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Codi safonau medrau llefaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion

A4 Gwella cynllunio er mwyn rhoi mwy o her i ddisgyblion mwy abl a dawnus

A5 Datblygu rôl y corff llywodraethol fel ffrindiau beirniadol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Adeg dechrau yn yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau iaith, llythrennedd a phersonol islaw'r cyfartaledd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn rhoi cyfarwyddiadau ac yn siarad am eu profiadau dyddiol yn glir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da. Maent yn ymateb i gwestiynau'n briodol ac yn ymwneud â'i gilydd yn rhwydd yn ystod trafodaethau a thasgau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ddarllen, ond mae diffyg rhuglder yn eu darllen yn aml. Nid yw llawer yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon da. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gymwys, gyda mwynhad a rhuglder. Gall llawer o ddisgyblion ailadrodd storïau'n gywir a gallant ddefnyddio rhesymu a chasglu i ennill dealltwriaeth lawn o destunau.

Ar draws yr ysgol, mae cynnydd o ran ysgrifennu yn amrywio'n ormodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall disgyblion mwy galluog lunio darnau byr o ysgrifennu sydd ag atalnodi priodol at ei gilydd. Maent yn dechrau defnyddio geirfa ddiddorol ac, fel arfer, yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod gyfyngedig o ddibenion a chynulleidfaoedd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n ysgrifennu'n estynedig neu'n ddigon manwl i ennyn sylw a diddordeb y darllenydd. Mae medrau sillafu ac atalnodi gormod o ddisgyblion yn wan. Nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn ddigon da ar draws meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn meddu ar ddealltwriaeth dda o rif ac yn datblygu'u medrau rhesymu mathemategol yn dda. Mae eu medrau mesur a data yn gwella'n briodol ac mae llawer o ddisgyblion yn eu defnyddio'n effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd a'u rhesymu rhifiadol yn dda ym meysydd eraill y cwricwlwm, er enghraifft pynciau mewn daearyddiaeth a gwyddoniaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o'r iaith ac yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw llawer o ddisgyblion yn hyderus yn siarad Cymraeg gan ddefnyddio patrymau brawddegau sylfaenol, cyfarwydd. Nid yw llawer yn darllen nac yn ysgrifennu Cymraeg yn ddigon da. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r iaith yn ddigonol yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol.

At ei gilydd, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn 2013, fe wnaeth perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen yn y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, osod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol. Roedd hyn yn well nag yn 2012 pan roedd ei pherfformiad wedi'i gosod yn yr 50% is ar gyfer llythrennedd ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion mwy abl yn y deilliant uwch, sef deilliant 6, yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer llythrennedd, ond yn yr 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol. Ar gyfer y ddau faes dysgu, roedd perfformiad disgyblion yn is yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn 2010, y 25% isaf yn 2012 a'r 50% uwch yn 2013. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn 2010, yr 50% is yn 2012 a'r 25% uchaf yn 2013. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 hefyd wedi amrywio dros yr un cyfnod ac, yn 2013, roedd yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg ac yn yr 50% is ar gyfer mathemateg.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn gwrtais i ymwelwyr ac yn hyderus gyda nhw. Mae eu hymddygiad yn dda yn gyson yn y dosbarth ac adeg egwyl, a dangosant barch, gofal a phryder tuag at eraill. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n annibynnol ac yn cydweithio'n dda ag eraill. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Deallant bwysigrwydd presenoldeb da a manteision bwyta'n iach ac ymarfer corff.

Mae llawer o ddisgyblion, dan arweiniad cyngor yr ysgol a grwpiau eraill o ddisgyblion, yn cyfrannu'n sylweddol at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Teimlant fod eu barn o bwys ac maent yn falch o'u llwyddiannau. Maent yn gweithio'n galed i wella'r gymuned leol trwy ddewis elusennau a phrosiectau i'w cefnogi. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda meithrinfa leol a grwpiau cymunedol i wella cyfleusterau lleol amrywiol ac mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o'u rôl yn y gymuned yn sylweddol.

Yn llynedd, 93.9% oedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr ysgol, gan osod yr ysgol yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda ac ni fu unrhyw waharddiadau dros y pum mlynedd diwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni gofynion statudol. Mae athrawon yn trefnu ystod dda o brofiadau diddorol a chyffrous ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae’r ystod eang o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol yn ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd yn datblygu’n dda. Mae athrawon yn cydweithredu’n bwrpasol i sicrhau bod yr ysgol yn rhoi’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith yn llwyddiannus. Mae’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn amrywio ac nid yw’r ysgol yn sicrhau bod medrau sillafu ac atalnodi disgyblion yn datblygu’n effeithiol. Nid yw cynllunio bob amser yn sicrhau bod gwersi’n herio’r disgyblion mwy abl yn ddigon da.

Mae’r cynllunio ar gyfer cyflwyno’r Gymraeg yn amrywio’n ormodol. Mae’r ysgol yn hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru yn dda trwy weithgareddau wedi’u cynllunio ganddi ac ymweliadau addysgol â mannau o ddiddordeb.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae’r pwyllgor eco yn helpu i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni. Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd amlwg yng nghwricwlwm yr ysgol. Ceir cysylltiadau da gydag ysgolion yn Tsieina a Phortiwgal ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o fywyd yn y gwledydd hyn a’r byd yn ehangach.

## Addysgu: Da

Mae athrawon yn cynllunio gwersi’n ofalus. Sefydlant amcanion dysgu clir ar gyfer pob gwers a’u rhannu’n briodol gyda disgyblion. Mae athrawon yn gofyn cwestiynau sy’n procio ac yn gwirio dealltwriaeth disgyblion yn dda a gwnânt gysylltiadau da â gwaith blaenorol disgyblion. Mae llyfrau disgyblion yn dangos bod staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ar draws y cwricwlwm.

Gan amlaf, mae athrawon yn symud dysgu disgyblion ymlaen ar gyflymder priodol ac yn gosod heriau sy’n eu symbylu a’u hymestyn. At ei gilydd, mae cynllunio athrawon yn ystyried yn dda ystod eang anghenion a galluoedd disgyblion, yn enwedig y rhai llai abl. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn addasu tasgau ddigon i herio’r disgyblion mwy abl. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn at ddysgu disgyblion.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt ar beth maent wedi’i wneud yn dda a sut gallant wella. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ymwybodol o’r targedau a osodwyd ar eu cyfer ac yn defnyddio’r rhain i wella’u gwaith. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn adolygu ac arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid ar lafar neu yn ysgrifenedig yn dda. Mae athrawon yn gwneud asesiadau cywir o waith disgyblion ac mae’r gwaith o olrhain

cynnydd disgyblion yn dda ac yn dylanwadu'n dda ar bob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol.

Mae adroddiadau blynyddol yr ysgol i rieni ar gynnydd disgyblion yn rhoi gwybodaeth dda iddynt am lwyddiannau eu plant a'r camau nesaf ar gyfer eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ethos gofalgar iawn gan yr ysgol, ac mae'r holl staff yn gwerthfawrogi'r disgyblion yn fawr. Mae lles disgyblion yn cael lle amlwg ym mywyd a gwaith bob dydd yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol bolisïau a chynlluniau effeithiol i hyrwyddo a monitro presenoldeb a phrydlondeb. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau sy'n hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau iach a chymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd. At ei gilydd, mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ymgysylltiad ag asiantaethau arbenigol, fel seicolegwyr addysg, y swyddog lles addysg ac asiantaethau aml-ethnig, yn effeithiol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella deilliannau i ddisgyblion ag anghenion dysgu a phersonol ychwanegol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn a thrylwyr. Mae'r ysgol yn darparu cymorth wedi'i dargedu'n dda ar gyfer disgyblion perthnasol ac mae'n cefnogi disgyblion ag anghenion ymddygiadol yn gyflym ac yn effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol yn briodol ac mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion a rhieni'n briodol wrth lunio ac adolygu'r rhain. At ei gilydd, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd y targedau yn eu cynlluniau addysg unigol.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar a chefnogol. Mae'n trin pob disgybl yn deg a gall pob un ohonynt fanteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm a bywyd yr ysgol. Mae gweithdrefnau a pholisïau clir i'w dilyn yn achos unrhyw aflonyddu neu fwlio.

Y tu mewn i'r ysgol, mae'r ystafelloedd yn ddeniadol ac yn cynnig amgylchedd dysgu llon i ddisgyblion. Mae arddangosfeydd symbylol i gynorthwyo â'u dysgu yn y coridorau a'r ystafelloedd dosbarth. Caiff toiledau'r disgyblion eu cynnal a chadw'n dda. Y tu allan, mae ardaloedd y Cyfnod Sylfaen yn cynnig amgylchedd dysgu da. Mae gemau a gweithgareddau yn ardal chwarae'r dosbarthiadau iau uwch ac mae disgyblion yn defnyddio'r rhain yn dda, ond mae llai o symbyliad yn yr ardal chwarae is.

Mae digon o adnoddau dysgu o ansawdd da i gefnogi'r cwricwlwm. Gall disgyblion fanteisio'n dda ar offer TGCh, y mae'r rhan fwyaf ohono bellach yn gludadwy yn sgil cyflwyno rhwydlyfrau a llechi electronig.

| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth a chyfres o werthoedd clir i'r ysgol, ac mae'n cynnig arweinyddiaeth gadarn, effeithiol. Mae'r pennaeth wedi bod yn llwyddiannus a chreadigol iawn wrth gyflwyno amryw arloesiadau a mentrau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith ar ddeilliannau gwell i ddisgyblion a darpariaeth well. Mae'r dirprwy bennaeth yn ei gefnogi'n dda wrth gyfleu disgwyliadau ynghylch safonau uchel. Mae disgrifiadau swydd clir gan yr holl staff ac mae eu rolau wedi'u diffinio'n dda. Mae'r uwch dîm arwain yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae amserlen gynlluniedig o gyfarfodydd staff sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar gamau gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi'u sefydlu'n llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n briodol mewn gwersi.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac mae nifer o lywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Deallant gyd-destun yr ysgol yn dda ac maent yn gwerthfawrogi'n fras gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid ydynt yn chwarae rhan digon uniongyrchol ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol ac mewn cynllunio ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid ydynt yn dwyn arweinwyr a rheolwyr i gyfrif yn llawn am y safonau a gyflawnir.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau clir ar waith gan yr ysgol i fonitro ei pherfformiad. Mae uwch arweinwyr yn cynnal ystod eang o weithgareddau i'w helpu i ddarganfod pa mor dda mae'r ysgol yn ei wneud ac yn seilio'u barnau ar dystiolaeth uniongyrchol a dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad. Mae safbwyntiau staff, rhieni a disgyblion yn cefnogi'r broses hon yn briodol. Mae'r uwch dîm arwain yn gweithredu'n dda ar y safbwyntiau hyn.

Mae athrawon yn defnyddio data perfformiad yn dda i arfarnu cyrhaeddiad disgyblion ac i nodi meysydd i'w gwella. Mae'r holl gydlynwyr pwnc yn adolygu eu meysydd pwnc yn rheolaidd ac mae eu canfyddiadau'n llywio'r broses hunanarfarnu yn briodol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn drylwyr ac yn rhoi darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae cysylltiad clir rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi safonau disgyblion. Mae meini prawf llwyddiant clir yn y cynllun, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei gamau gweithredu, ac mae'n amlinellu'r adnoddau y mae eu hangen i weithredu'r rhain. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn deall y camau gweithredu yn y cynllun a'u rôl mewn helpu i'w cyflawni. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn effeithiol bob tymor.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a rhieni yn dda. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus gyda rhieni trwy lythyron rheolaidd. Yn eu tro, mae rhieni'n gefnogol iawn ac yn cymryd rhan weithgar mewn partneriaeth darllen gwell, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen disgyblion.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae cyfraniadau disgyblion at weithgareddau cymunedol, fel gweithio gyda chanolfan gymunedol leol, ynghyd â nifer fawr o ymwelwyr â'r ysgol, yn cyfoethogi profiadau dysgu yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol. Er enghraifft, mae cysylltiadau â choleg lleol yn gwella dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth o brofiadau gwaith. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda meithrinfa leol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae cydweithredu llwyddiannus ag ysgolion cynradd yn y dalgylch a chyda'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau dilysrwydd asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 trwy gyfarfodydd safoni a chymedroli ar y cyd. Mae'r disgyblion hynaf yn yr ysgol yn cael nifer o gyfleoedd i weithio gyda'r ysgol uwchradd ar nifer o brosiectau a gweithgareddau. Mae'r trefniadau hyn yn hyrwyddo pontio effeithiol i'r cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae lefelau staffio priodol i gefnogi dysgu disgyblion ac mae'r ysgol yn rheoli ei staff yn effeithlon ac yn effeithiol. Caiff y staff addysgu a'r staff cymorth eu dosbarthu'n fedrus i sicrhau bod gwybodaeth, profiad ac arbenigedd staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae rheolwyr yn trefnu'r amser hwn yn dda.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol yn nodi cyfleoedd i ddatblygu a hyfforddi staff, er nad yw staff cymorth yn rhan o'r broses ffurfiol eto. Ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda ac yn sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyllid ychwanegol yn effeithiol ar gyfer prosiectau penodol sydd â'r nod o wella safonau, lles disgyblion a'r amgylchedd dysgu.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd perfformiad disgyblion yn y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, islaw cyfartaledd y teulu mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol, ond uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn medrau personol a chymdeithasol. Yn y deilliant uwch, sef deilliant 6, yn 2013, fe wnaeth disgyblion mwy abl berfformio islaw cyfartaledd y teulu mewn llythrennedd, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol.

Yn 2013, fe wnaeth perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen yn y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, osod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol. Roedd hyn yn well nag yn 2012 pan roedd perfformiad wedi'i gosod yn yr 50% is ar gyfer llythrennedd ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion mwy abl yn y deilliant uwch, sef deilliant 6, yn 2013 wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd, ond yn yr 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol. Yn y ddau faes dysgu, roedd perfformiad disgyblion yn is nag yn 2012.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 ar y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, roedd perfformiad disgyblion uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ar y lefel uwch, sef lefel 5, roedd perfformiad disgyblion islaw cyfartaledd y teulu yn y tri phwnc craidd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf o'i gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn 2010, y 25% isaf yn 2012 a'r 50% uwch yn 2013. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn 2010, yr 50% is yn 2012 a'r 25% uchaf yn 2013. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 wedi amrywio dros yr un cyfnod hefyd ac, yn 2013, fe wnaeth osod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a'r 50% is ar gyfer mathemateg.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y ddwy flynedd diwethaf, mae bechgyn wedi perfformio'n well na merched yn y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, ac yn y deilliant uwch, sef deilliant 6. Yng nghyfnod allweddol 2 dros y tair blynedd diwethaf, mae bechgyn wedi tueddu i berfformio'n well ar y lefel uwch, sef lefel 5, yn y tri phwnc craidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim yn tueddu i wneud cystal ag eraill, ond yng nghyfnod allweddol 2, ni fu tuedd glir dros y blynyddoedd diwethaf.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r trothwy – dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 51 | 51 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 51 | 48 | 3 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 51 | 50 | 1 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 51 | 48 | 3 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 51 | 51 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 51 | 48 | 3 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 51 | 50 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 51 | 51 | 0 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 51 | 49 | 2 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 49 | 48 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 49 | 37 | 12 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 76% | 24% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 50 | 40 | 10 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 80% | 20% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

yn dynodi’r trothwy – dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 14 | 7 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 21 | 17 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 81% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 21 | 14 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 21 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 21 | 14 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 67% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 21 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 21 | 15 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 71% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 15 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 71% | 24% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 17 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 21 | 15 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 21 | 15 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 71% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 21 | 15 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 21 | 18<br>86% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 13<br>62% | 8<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 14<br>70% | 6<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 19 | 12<br>63% | 4<br>21% | 0<br>0% | 1<br>5% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 14<br>67% | 6<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 21 | 14<br>67% | 7<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Aileen Brindley | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Boardman | Arolygydd Lleyg |
| Janet Marsden | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jason Dodd | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.